# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi


Rhifyn 222 Pris £1 Mis Mai 2020




Gweler Tudalen 2.....

# Pen-blwydd i'w gofio

Dylai achlysur pwysig pen-blwydd NAW DEG Haydn Griffiths, Tŷ Isaf, Caerffili, fod yn ddigwyddiad tawel o ystyried cyfyngiadau'r Corona-firws. Ond nid felly. Er gwaetha'r cyfyngiadau gwnaeth ffrindiau niferus, cymdogion a theulu Haydn yn siŵr nad oedd y diwrnod mawr, y 31ain o Fawrth, yn mynd i fod yn ddi-nod. Na, cafwyd llu o gardiau a daeth aelodau o staff Ysgol Gymraeg Caerffili i fyny, curo ffenest y lolfa, a dal i fyny posteri yn dymuno pen-blwydd hapus - a hynny ar y lawnt, o bellter priodol.



Un o Gwmtwrch Isaf (nid Uchaf!!) ym mhen uchaf Cwm Tawe yw Haydn. Wedi mynychu'r ysgol leol ac Ysgol Ramadeg Ystalyfera aeth i'w hyfforddi yng Ngholeg Addysg Caerllion ar Wysg. Cafodd ei swydd gyntaf yn athro'r Gymraeg yn ysgolion Y Santes Fair, Clarence Road ac Ysgol Eleanor Street. Mae'r ysgolion hyn wedi'u lleoli yn yr ardal a adwaenid yn "Tiger Bay" yr adeg honno, ond sydd bellach wedi ennill parchusrwydd drwy ei hail-fedyddio'n "Bae Caerdydd". Ym mhen amser daeth yn athro dosbarth cyn codi yn brifathro un o ysgolion cynradd mwyaf ein prifddinas yn Ysgol Iau Glyncoed. Ers hynny mae wedi mwynhau bron i ddeg mlynedd ar hugain o ymddeoliad.

Priododd e â Margaret, oedd yn nyrs, yn y capel bach a welir ar ochr dde'r heol sy'n arwain o'r Bowls i lawr i gylchdro Trecenydd yng Nghaerffili. Yng Nghaerdydd oedd eu cartref cyntaf cyn iddynt brynu un o'r tai cyntaf i'w hadeiladu ar stad Tŷ Isaf.

Bu iddynt dri o feibion. Huw yw'r hynaf ac yn optegydd sydd yn byw yn Welwyn. Mae ganddo fe a'i wraig, Trish, ferch, Rhiannon. Mae'r efeilliaid Hywel ac Alun yn dal i fyw yn yr ardal hon. Hywel, a oedd yn blismon cyn ymddeol, yn briod â Karen sy'n athrawes yn Ysgol Gymraeg Caerffili a'u merch Catrin sy'n athrawes yn ysgol y Gwyndy.




Mae eu mab Aled yn ei bedwaredd flwyddyn yn astudio Peirianneg Fecanyddol ym Mhrifysgol Caerfaddon. Mae plant Alun a'i wraig Angie, fel plant Hywel a Karen, wedi mynd drwy Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a nawr mae Rhodri yn astudio Hanes ym Mhrifysgol Brunel, Llundain a Leah yn aros am ei chanlyniadau Lefel A yn yr haf, cyn mynd i Loughborough i astudio Peirianneg.

Mae Haydn wedi mwynhau bywyd llawn iawn. Yn hoff o chwaraeon, bu tan yn gymharol ddiweddar yn chwarae golff a bowls. Mae gan y teulu garafán yn Aberaeron ers blynyddoedd lawer ac mae gan y teulu atgofion hapus o dreulio'u bachgendod ar lan y môr yno.

Mae'r teulu nawr yn edrych ymlaen at ben-blwydd mwy confensiynol pan fydd Haydn yn naw deg un ym mhen y flwyddyn.

Hoffai Haydn a Margaret ddiolch i bob un o'u cymdogion am eu cyfarchion cynnes a'u parodrwydd i 'ercyd' (dyma air Cwm Tawe am nôl) papur iddynt yn ystod y cyfnod anodd yma. Bwriedir trefnu parti mawr ar ôl hyn i gyd i ddiolch yn iawn iddynt




Pen-blwydd hapus, Haydn, oddi wrthym ni i gyd.

# Gwilym Davies

Ganed y Parchedig Gwilym Davies mewn tŷ teras yng nghanol Bedlinog. Mae'r tŷ i'w weld heddiw, gyda phlâc arno i ddweud wrth bawb sy'n mynd heibio, taw dyma fan geni un o gymwynaswyr Cymru. Bydd pob un ohonom gafodd eu haddysg yng Nghymru wedi profi rhywfaint o weledigaeth y dyn arbennig hwn.



***Man geni Gwilym Davies, gyda phlâc uwchben y drws.***

Ganed Gwilym Davies yn "fab y mans". Gweinidog gyda'r Bedyddwyr oedd ei dad, D.J.Davies, ac yn ôl arfer yr eglwysi anghydffurfiol, symudodd y teulu ymlaen at ofalaeth Llangadog tra roedd Gwilym yn dal yn yr ysgol. Bu'n ddisgybl-athro ym Medlinog cyn gorffen ei addysg yn Ysgol Ramadeg Llandeilo a dilyn ei dad i'r weinidogaeth ym 1906. Bu'n gweinidogaethu yn Aber Llydan, Caerfyrddin, Y Fenni a Llandrindod.

Llandrindod oedd ei ofalaeth olaf cyn iddo ddechrau ar bennod newydd yn ei fywyd. Roedd diddordeb ganddo erioed mewn addysg ryngwladol a heddwch byd-eang. Mae ei gymynrodd fawr i Gymru'n cyfuno'r diddordebau hyn. Ym 1922, sefydlodd neges heddwch flynyddol plant Cymru i'r byd. Cafodd y neges gyntaf honno ei darlledu – enghraifft gynnar o ddefnyddio'r cyfrwng hwn. Arloesodd Gwilym Davies yn yr un cyfrwng y flwyddyn ganlynol hefyd. Efe oedd y person cyntaf erioed i ddarlledu yn Gymraeg, ar Ddydd Gŵyl Dewi 1923.

O hynny ymlaen, gyda chefnogaeth ei noddwr, Arglwydd Davies Llandinam, bu'n gweithio'n ddiflino i hybu'r ddwy achos mor agos at ei galon – addysg a heddwch byd-eang. Ym 1922 eto, helpodd i sefydlu cangen Cymru o Undeb Unedig), ac efe oedd ei chyfarwyddwr anrhydeddus o'r flwyddyn honno tan 1945, pan ddaeth y Gynghrair i ben yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Trefnodd gyfres o gynadleddau blynyddol ar addysg ryngwladol rhwng 1922 ac 1939, ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd ei hun bu'n cyfarwyddo gwaith Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru ar gyfansoddiad sefydliad addysg rhyngwladol. Ym 1946 daeth UNESCO i fod, yn seiliedig ar waith Gwilym Davies a CBAC. Aeth Gwilym Davies ymlaen i sefydlu pwyllgor cyntaf UNESCO yng Nghymru.

Bu'n ysgrifennu hefyd yn ystod y blynyddoedd prysur hyn. Cyhoeddwyd nifer o'i erthyglau mewn cyfrol *Y Byd Ddoe a Heddiw* (1938), ac mae ei ddau lyfr ar addysg ryngwladol, *International Education in the Schools of Wales and Monmouthshire* (1926) a *The Gregynog Conferences on International Education* (1952) yn haeddu sylw hyd heddiw.

Does dim rhyfedd i Gwilym Davies dderbyn nifer o anrhydeddau ar ddiwedd ei oes, a, phan fu e farw ym 1955, does dim rhyfedd chwaith i'w weddillion gael eu gwasgaru ger Trwyn Larnog, Penarth, lle llwyddodd Marconi i drosglwyddo'r negesau radio cyntaf dros y dŵr. Roedd potensial radio i uno holl wledydd y byd yn amlwg i Gwilym Davies, ac yn gyfrwng iddo geisio gwireddu ei obeithion am heddwch byd-eang.

Heddiw, yr Urdd sy'n gyfrifol am drefnu Neges Heddwch ac Ewyllys Da Ieuenctid Cymru ac mae Radio Cymru'n dal yn gyfrwng pwysig– yn bwysicach fyth yn yr argyfwng presennol. Mae canmlwyddiant y Neges yn agosáu a bydd cyfle i ni yn y cwm hwn, a Chymru gyfan gyda ni, ddathlu mab mans Bedlinog, ei weledigaeth a'i ddyfalbarhad.

*Diolchwn i Dr Elin Jones am yr erthygl amserol hon i'n hatgoffa mai Mai yw mis Neges Ewyllys Da. Eleni darlledir y neges gan yr ar Fai 18fed. Gobeithiwn y gwnewch achub ar y cyfle i yrru cyfarchion heddwch i'ch ffrindiau.*

## Cofio Alec Close

*Y Parchedig Denzil John*

Ar ôl cystudd hir, bu farw Alec Close, gan adael ei briod Dorothy a'i ferched Rhian a Lisa i alaru ar ei ôl. Roedd yn enedigol o Gwm Twrch yng Nghwm Tawe ac yn beiriannydd blaengar. Datblygodd ei sgiliau a chreodd gwmni gyda chyfaill i hyfforddi eraill gan gyfrannu i'r byd diwydiannol. Bydd llawer o bobl wedi gwerthfawrogi ei gyfaniad cadarnhaol i'w bywydau ar eu taith. Cofiwn hefyd iddo weithio gyda chymdeithas CAB - gan brofi ei hun yn gyfaill a chynorthwywr i bawb. Roedd yn Gymro i'r carn ac yn awyddus i hyrwyddo'r iaith ym mhob modd.

Mwynhaodd ef a'i briod ystod eang o ddiwylliannau, boed mewn cerdd neu ar lwyfan. Cafodd bleser mawr yn cefnogi rygbi yn gyffredinol ac roedd yn ddiolchgar am y cyfle i deithio dramor gyda'i nai i wylio gemau'r Llewod. Roedd yn selog ei gefnogaeth i Gwmni Cwm Ni ac wrth ei fodd gydag ystod eang o ffurfiau cerdd. Bu'n aelod selog ym Methel, ac yn awyddus i wasanaethu'r eglwys gyda phob dawn o'i eiddo. Wrth reddf roedd yn berson cymdeithasol, a bydd sawl cylch o drigolion Caerffili yn cofio amdano gydag anwyldeb a gwerthfawrogiad. Felly hefyd trigolion Mill Rd, ac yn ddiweddarach, cymuned Bron Rhiw Fach. Diolch am y fraint o adnabod y cyfaill gwylaidd a gostyngedig hwn, dyn teulu, Cymro a Christion gloyw, a chymwynaswr wrth reddf.

## Gwawr Davies

*Morgan Hopkins*



Mae 'na rai pobol yr ewch drwy'ch bywyd yn meddwl nad oes 'na unrhyw beth yn gallu eu llethu. Dim byd yn gallu atal y don, y tsunami o egni a brwdfrydedd sydd ganddyn nhw. Dim oll o ddim byd allai roi terfyn ar eu chwerthin a'u hafiaith.

Roedd yn sioc i nifer fawr o bobol glywed am basio Gwawr Davies, wedi iddi ddioddef gwaeledd hir. Doedd am i neb wybod, ddim am i neb bitio drosti na thristáu, ddim am i rywbeth mor dila â chancr ymyrryd ar yr egni di-baid, tanbaid, corwyntog oedd ganddi. Mae'n ddyletswydd arnom ni sydd am barchu ei dymuniad i'w chofio hi felly - yn barti o fenyw, yn herio trefn pan oedd angen gwneud, yn athrawes a ffrind gyda "wmff!" ym mhob ynganiad.

Dros y diwrnodau diwethaf mae cyfeillion Mrs D wedi bod yn rhannu straeon amdani gyda fi, y rhan fwyaf yn olrhain rhyw ddamwain ddigri neu dro trwstan, camddweud neu ddigwyddiad - gan ddefnyddio un o'i hoff eiriau - boncyrs. Ffeindiwch unrhyw un oedd yn ei hadnabod hi ac fe glywch nhw rif y gwlith, ond ym mhob un stori hi sy'n ennill y dydd yn y pen draw, waeth os mai hi oedd achos y boncyrs neu beidio.


Doedd neb yn chwerthin ar ei phen am ei bod hi yn chwerthin ei henaid arni hi ei hunan. Roedd hi'n deall ei bod hi mor boncyrs a phawb arall, yn dathlu'r ffaith, y gwyleidd-dra hynny'n diarfogi rhag pob collfarnu. Roedd Gwawr yn drech na gwawd a hi oedd yr antidôt i bob sinigiaeth.

Bydd hi'n casáu'r sylw mae hi'n ei dderbyn. Bydd hi mor grac gyda fi am ysgrifennu hwn. Troi'r golau ar bobol eraill oedd ei dawn hi ond roedd hi'n casáu derbyn sylw ei hunan. Mae'r actor Marc Lewis Jones yn daer na fyddai'n actio o gwbl hebddi. Byddai miloedd ar filoedd o blant gymerodd ran yn ei sioeau ddim wedi cael y profiadau anhygoel gafon nhw, oni bai amdani hi. Duw a ŵyr ble bydden i heb ei dylanwad ar fy mywyd i ond yn dlotach yn fy enaid o bell ffordd. Yn bennaf oll, rhoiodd hi gymaint o gyfleoedd i'r disgyblion hynny a oedd "ar y cyrion" ag y gwnaeth i'r rhai ffodus. Rhoiodd hi ei ffydd yn rhai o'r plant mwyaf garw, y no hopers, y rhai a oedd yn amhosibl i neb arall eu cyrraedd. Fe wnaeth hi drystio ni a bydden ni wedi gwneud unrhyw beth, unrhyw beth drosti o achos hynny.

Cofiwch, roedd hi'n graff hefyd, yn hynod greadigol a dyfeisgar wrth ddysgu neu ymarfer sioe ac roedd trefn ar y bwrlwm gwallgof, er mai dim ond hi oedd yn deall y drefn honno. Nawr, a minnau'n dysgu actio i fyfyrwyr coleg, dwy'n cofio ei ffordd hi ac yn ceisio ailgreu yr egni hynny sy'n rhyddhau pobol, yn caniatáu iddyn nhw deimlo'n ddiogel i rannu a chreu. Mae'n anodd, weithiau'n fwrn a phob tro yn ymdrech i gael y gorau allan o bobol. Dw i wedi cymryd oes i sylweddoli hynny.

Beth dw i wedi'i ddysgu gan Gwawr Davies....... ? bydda'n hael - neith dy ffrindiau gofio a bydd y lleill yn drysu. Bydd lawen, mae'r holl beth, y bywyd 'ma, yn hollol nyts, prin yn gwneud unrhyw sens ac yno i'w fwynhau. Bydd garedig i bobol o bob cefndir a helpa nhw. Os am wneud, gor-wna. Yn bennaf oll, chwertha yn egnïol, gyda...WMFF!!

# Huw Williams ac Eddie Parry



*Huw ac Evelyn*

Clywyd nifer o hanesion trist yn ystod cyfnod cythryblus y pandemic Coronafirws ond prin bu'r un mwy torcalonnus na'r hyn a ddigwyddodd i un o'n teuluoedd yn ardal Lôn y Llyn, Caerffili.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Mrs Evelyn Williams, Lôn y Deri, felly, ar golli ei thad a fu farw ar 26ain o Fawrth a'i gŵr Huw 12 diwrnod yn ddiweddarach.



*Eddie Parry, tad Evelyn*

Cyhoeddodd "Cwm*ni*" erthygl ym mis Mehefin 2018 am dad Evelyn, Eddie Parry, pan oedd yn dathlu ei ganfed pen-blwydd. Llwyddodd Mr Parry i fyw ar ei ben ei hun draw yn Aberaeron ac yntau yn 102, ond fe gwympodd fis Medi a thorri ei glun. Bu'n rhaid iddo fynd i'r cartref gofal ar ôl cael triniaeth yn ysbyty Bronglais. Yna, daeth yn amser dwys i'r teulu wrth i iechyd eu tad ddirywio ymhellach ac, yn anffodus, fel y digwyddodd mewn rhannau eraill o'r byd, doedd dim modd i'r teulu ymweld ag e yn ei waeledd. Oherwydd y mesurau llym oedd mewn bodolaeth, doedd Evelyn, a'i chwaer Jean, sy'n byw yn yr Alban, ddim yn gallu mynd i'r angladd chwaith.

Yna, y noson cyn yr angladd, ar y 7fed o Ebrill bu farw Huw, gŵr Evelyn yn sydyn wedi iddo ddioddef trawiad ar y galon. Bydd nifer o'n darllenwyr yn cofio Huw, a oedd yn enedigol o Nelson, ac yn athro yn Ysgol Iau Coed y Brain, Llanbradach tan iddo orfod rhoi'r gorau i'w swydd oherwydd anhwylder ddechrau'r naw degau. Yn ystod ei ymddeoliad roedd yn gerddwr brwd a phob blwyddyn roedd yn arfer mynd i gerdded Ffordd y Pererinion - Santiago de Compostela. Roedd Huw yn gymeriad hoffus ac annwyl ac roedd bob amser stori ganddo i'w hadrodd. Roedd yn arddwr brwd hefyd ac wedi dwlu ar fod yn dad-cu i blant Nia, sef Lydia ac Eliott sy'n byw yng Nghaerdydd. Mae Rhian, merch arall Huw ac Evelyn, yn byw yn Los Angeles.

Byddai'n anodd dychmygu cyfres o ddigwyddiadau mor drychinebus a hynny ar adeg mor gythryblus a gallwn ond estyn ein cydymdeimlad mwyaf dwys i Evelyn, ei dwy ferch, a'u teuluoedd.

## Technoleg Gwybodaeth MyW




Yn y dyddiau rhyfedd hyn, mae nifer ohonom yn magu hyder wrth ymdopi gyda dulliau newydd digidol o gyfathrebu a chadw mewn cysylltiad. "Yn ddigidol, yn ddiogel" yw gair Jenni, ein Trysorydd, ac mae'n hollol wir.

Diolch i ddoniau cyfrifiadurol Gwyneth Davies, mae gan gangen Cwm Rhymni o Ferched y Wawr ddull newydd o rannu newyddion – a chaneuon – a jôcs – a lluniau o'r ardd – a lluniau blodau – a cwisys –a lluniau'r wyrion â brech yr ieir - a negeseuon o longyfarchion neu gydymdeimlad. Mae ein grŵp WhatsApp newydd wedi profi'n fendith dros yr wythnosau diwethaf. Does wybod pa lun neu gyfarchiad fydd yn eich cwrdd wrth i chi agor y ffôn – ond mae popeth yn ddifyr, ac yn falm i bob un sydd wedi ei chaethiwo yn ei thŷ (h.y. pob un ohonom!)

Bendith arall WhatsApp yw bod digon o le i bawb, felly mae croeso i aelodau newydd ymuno gyda ni, a chael teimlo'n rhan o gyfeillgarwch digidol a diogel Merched y Wawr ein cwm ni. Cysylltwch â Gwyneth ar 07738013942, ac fe fydd hi'n eich rhoi ar ben y ffordd.

# Posau'r Plant

gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?





| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| U | G | W | E | I | TH | I | O | P | G |
| N | A | R | DD | D | A | R | A | I | S |
| N | C | I | O | T | A | W | C | L | U |
| E | O | U | A | H | N | A | L | G | D |
| F | G | S | O | S | U | L | C | A | T |
| I | I | P | I | E | N | T | R | R | I |
| R | N | O | G | L | A | LL | H | DD | A |
| G | I | G | W | I | E | TH | O | I | S |
| S | O | I | T | N | I | E | P | O | I |
| Y | A | R | A | D | D | A | W | N | S |

Ceisiwch ddod o hyd i 10 gweithgaredd yn y chwilair allwch chi wneud yn y tŷ neu'r ardd

GARDDIO TACLUSO COGINIO

PEINTIO GLANHAU GWEITHIO

DARLLEN SIARAD DAWNSIO

YSGRIFENNU

Mae'r atebion ar waelod tudalen 11

Ar y dudalen yma mae yna rai o'r pethau yr ydym yn gallu'u gwneud heb fynd allan o'r tŷ neu'r ardd. Mae llawer o bobol wedi dodi pethau hapus yn eu ffenestri, fel y lluniau yma. Diolch i Mrs Nerys Todd am eu danfon atom. Beth am dynnu llun eich hunan o rywbeth dych chi wedi creu yn y tŷ a'i ddanfon at y Golygydd? Mae'r cyfeiriad ar dudalen 16. Edrychwn ymlaen at eu gweld.





# O bydded i'r heniaith barhau!

Mae plant Ysgol Ifor Bach, Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol y Castell wedi cael modd i fyw wrth weithio ar brosiect arbennig. O dan arweinyddiaeth wych Mrs Lowri Griffiths o Ysgol y Castell cafodd y plant a Mrs Eleri Jones, Miss Lowri Prince, Miss Non Bloor a Mr Rhodri Harries y cyfle i weithio gyda'r ymarferydd creadigol Anwen Carlisle. Mae Anwen yn wyneb cyfarwydd i lawer ohonoch – roedd yn actio yn un o raglenni cyntaf S4C, sef Dinas, ac yn gyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Llanhari. Pan nad yw'n actio mae hi'n ymarferydd creadigol sydd yn cyflwyno plant ac athrawon i ddulliau ymarferol o addysgu mewn ffordd arbennig.

Thema'r prosiect oedd yr iaith Gymraeg. Ar ôl cwrdd yn Ysgol y Castell gyda'n gilydd am fore a gwneud nifer o weithgareddau hwylus, aeth y plant nôl i'r ysgolion i weithio gydag Anwen a fi, Rhodri, ar weithgareddau amrywiol. Cafodd y plant fodd i fyw gydag Anwen – yn creu dramodig am O.M Edwards, gwrthdystiad i gofio Tryweryn, creu castell Caerffili anferth, creu sioe bypedau i ddysgu am dafodieithoedd, ffilm am Gwynfor Evans… heb sôn am ddysgu gemau gwych newydd!

Ces i'r fraint o weithio ym mhob ysgol i greu cân am yr iaith – oedd yn cynnwys arwyddair pob ysgol. Felly, "Hawl plentyn ei iaith" oedd cytgân Ysgol Gymraeg Caerffili. "Cerddwn ymlaen â ffydd yn ein cân" oedd un Ysgol y Castell. "Ymdrech a lwydda" oedd byrdwn Ysgol Ifor Bach. Roedd y plant wedi creu y geiriau a'r alaw i bob cân – a beth oedd yn hyfryd oedd bod modd canu pob cytgan ar yr un pryd! (a swnio'n neis!).

Roedd yn hyfryd dod ynghyd eto yn Ysgol y Castell ar ddiwedd y prosiect i rannu elfennau gyda'n gilydd. Roedd pob ysgol wedi canu eu caneuon i'w gilydd – a chanu'r gytgan ar yr un pryd! Gwelsom gastell ysblennydd Ysgol Caerffili, sioeau pypedau gwych Ysgol y Castell ac actio arbennig Ysgol Ifor Bach. Daeth criw Heno i ffilmio hyn yn ogystal – gan gloi'r prynhawn gyda grŵp gorau Cymru – Candelas!



*Croeso i Sioe Bypedau Ysgol y Castell!*

Elfen arbennig arall o'r prosiect oedd gweithio gyda'r arlunydd Rhys Padarn Jones o'r cwmni Oriel Odl ar furlun i gofnodi'r gwaith. Roedd pob murlun yn cynnwys peth o'r gwaith roedd y plant wedi astudio. Fe nododd Theo o Ysgol Ifor Bach – "mae popeth 'dyn ni wedi bod yn dysgu amdano yn y murlun," – dysgu creadigol yn wir.

Roedd y prosiect yma yn bleser pur – diolch yn fawr iawn i bawb am gymryd rhan gyda'r fath brwdfrydedd – a bod mor greadigol!!

Rhodri Harries



# Plant Ysgol Gymraeg Caerffili yn creu eu castell creadigol!

















# Dathlu gyda Candelas!







# Murlun Ysgol Ifor Bach – gyda llechi
# Cofiwch Dryweryn





**Edrychwn ymlaen at weld mwy o waith y plant yn rhifyn mis Mehefin**

# Wythnos Cymorth Cristnogol

10 – 16 Mai 2020

Prin fod diwrnod yn mynd heibio nad ydyw effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw ar y newyddion. Yma yng Nghymru, rydym wedi wynebu stormydd cryf, gyda llifogydd difrifol yn achosi difrod mawr i gartrefi a busnesau.

Mewn gwlad fel Kenya, fodd bynnag, sychder yw'r broblem fawr, gyda phobl yn gorfod cerdded milltiroedd i chwilio am ddŵr fydd yn eu galluogi i dyfu cnydau i fwydo eu hunain.



***Rose Katanu Jonathan***

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni yn canolbwyntio ar effaith yr argyfwng hinsawdd ar Kenya a'i phobl. Eleni bydd yr Wythnos yn edrych yn wahanol iawn i'r arferol oherwydd y Coronafirws. Nid yw'r Wythnos wedi ei chanslo, fodd bynnag. Mae'r gwaith yn parhau, er y bydd yn wahanol iawn.

Cawn glywed hanes Rose, sy'n wraig 67 oed ac yn gofalu am ei wyrion. Mae'n gorfod cerdded chwe awr bob dydd i gasglu dŵr. Hebddo, ni all dyfu cnydau a pharatoi bwyd maethlon i'w theulu. Meddai, 'Mae'r sychder wedi bod yn ddifrifol. Rydym wedi cael tri mis hir heb law. Rydym yn dioddef.' Clywn hefyd gan Florence. Arferai hithau gerdded pellter maith ond ers i'w chymuned godi argae pridd yn ymyl ei phentref gyda help gan bartner Cymorth Cristnogol, mae ei bywyd hi a'i chymdogion wedi ei drawsnewid. Mae'r sychder lawn mor ddrwg, ond gyda'r argae mae'n bosibl cronni dŵr ar yfer y tymor sych.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gyfle i godi arian i helpu mwy o gymunedau tebyg i un Florence – cymunedau sydd yn rheng flaen yr ymdrech yn erbyn yr argyfwng hinsawdd.

Er na fydd y cyfarfodydd arferol ymlaen yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, bydd cyfleoedd gwahanol i gyfrannu tuag at y gwaith. Dyma gyfle arbennig i wneud rhywbeth dros y tlotaf yn ein byd - y bobl sy wedi cyfrannu lleiaf tuag at yr argyfwng, ond sydd er hynny'n gorfod wynebu'r effaith fwyaf.



***Florence Muthiani***

Am fwy o wybodaeth am yr Wythnos a'r newidiadau fydd iddi eleni, os gwelwch yn dda, ewch i'n gwefan:
https://www.christianaid.org.uk/about-us/christian-aid-week/coronavirus-guidance

# Bro 360

Yn ystod yr argyfwng presennol mae ein Menter Iaith yn darparu pob math o weithgareddau ar-lein a thrwy "Zoom". Cysylltwch â Bethan - mae'r manylion isod.

Hefyd mae cylchgrawn Golwg wedi llunio safle "Bro360" lle maent yn arddangos cynnwys dros 20 o bapurau bro Cymru gan gynnwys "Cwm*ni*". Pam nad ewch chi i ymweld a'r safle?

Bethan Jones-Ollerton
Swyddog Datblygu Cymunedol bethanjones@mentercaerffili.cymru

# Colofn Y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Helo bawb! Fel arfer byddwn ni'n trafod cerdd yn y golofn hon ond o dro i dro mae'n syniad da gwneud rhywbeth gwahanol. Amser i hogi eich meddwl gydag ymarfer gramadeg! Beth yw'r gair Cymraeg am IF? Wel, mae dau air, OS a PE ond dydyn nhw ddim yr un peth, maen nhw'n cael eu defnyddio dan amgylchiadau gwahanol.

Rhaid defnyddio **PE** pan fydd y ferf yn AMODOL ( conditional ):

**Pe basai** llawer o arian gyda fi ( *ond does dim* ) **hoffwn i** brynu tŷ yn y Swistir.

**Pe baset ti** wedi dweud wrtha i ddoe *( ond wnest ti ddim* ), **fasai** dim problem.

**Pe baswn i'n** ennill y Loteri (*anhebygol* ), **gallwn i** orffen gweithio.

Os **nad** yw'r ferf yn amodol, rydyn ni'n defnyddio **OS**. Cymharwch rhain gyda'r 3 enghraifft gyntaf:


Os bydd digon o arian gyda fi y flwyddyn nesaf ( *efallai bydd* ), bydda i'n cael gwyliau da.

Os byddi di'n dweud wrtha i yfory beth yw'r broblem (*tebygol* ), bydda i'n gallu helpu.

Os bydda i'n ennill y Loteri yr wythnos hon, (*gobeithiol!*) bydda i'n gorffen gweithio.

Pawb yn deall? Reit, un peth arall. Yn Saesneg rydyn ni'n defnyddio IF yn aml yn lle WHETHER. Yn Gymraeg, rydyn ni'n defnyddio A am WHETHER:

Gofynnwch i John **a** ydy e eisiau dod gyda ni.
Rydw i eisiau gwybod **a** ydych chi wedi deall yr ymarfer yma.



Nawr rhowch **PE, OS** neu **A** yn y bylchau isod :

1. …………… basai car gyda fi, baswn i'n cynnig lifft iddo fe.

2………………. wyt ti'n hoffi nofelau ditectif, byddi di'n mwynhau hwn.


3. Mae'r heddlu'n gofyn …………… oedd hi yma neithiwr.

4. …………. bydd hi'n braf yfory, bydda i'n mynd am dro.


5. ……………basai e wedi bod yn fwy gofalus, fasai'r ddamwain ddim wedi digwydd.

**Mae'r atebion i'r uchod i'w gweld ar dudalen 15**

*fel arfer : usually* *o dro i dro : from time to time* *hogi eich meddwl : sharpen your mind*
*dan amgylchiadau gwahanol : in different circumstances* *tebygol/anhebygol : likely/unlikely* *gobeithiol : hopeful*



**Atebion Posau'r Plant**



# Aaron Ramsey

**Mae darllenwyr "Cwmni" yn sicr wedi ymfalchïo yng ngyrfa Aaron Ramsey, y bachgen o Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yn ei gampau ar y meysydd pêl droed. Roedd mwy o reswm i ni deimlo'n falch ohono wedi darllen amdano yn Golwg .**




*Llun: Chensiyuan CC SA 4.0 trwy Gomin Wicimedia*

## Achosion Aaron Ramsay *gan Phil Stead*

**Mae pêldroedwyr Uwchgynghrair Lloegr wedi llawer o feirniadaeth yn ddiweddar am benderfyniad eu clybiau cyfoethog i geisio am gymorth ariannol gan y llywodraeth i dalu eu gweithwyr cyffredin, tra bo'r chwaraewyr yn dal i ennill cyflog llawn. Dydw i ddim yn siwr pam mai bai y chwaraewyr yw hyn.**

**Yr un pryd, yn ddistaw bach, fe gyfrannodd Aaron Ramsay £20,000 o'i bres ei hun i fyrddau iechyd Caerdydd a Gwent i'w helpu nhw yn eu brwydr yn erbyn yr Coronafeirws. Yn ogystal â hyn, mae e wedi rhoi £3,000 i elusen pobol ddigartref yng Nghasnewydd yn yr wythnos ddiwethaf.**

**Mae Ramsay wedi defnyddio ei broffil uchel yn gyson i dynnu sylw at achosion sydd yn agos at ei galon. Mae'n gefnogwr brwd o'r WWF – Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd – ac mae wedi bod yn codi pres iddyn nhw ers blynyddoedd. Pan briododd ei gariad Colleen yn 2014, doedd y cwpwl ddim am dderbyn anrhegion ond, yn hytrach, cyfraniadau at Parkinsons UK. Yn ogystal, cynigodd Ramsay gyfraniad "sylweddol" i'r gronfa i helpu'r anifeiliaid gafodd eu heffeithio gan y tanau yn Awstralia y llynedd.**

**Mae'r dyn ifanc , blêr braidd, a droiodd i fyny yn Arsenal yn gyrru Ford Fiesta gwyrdd llachar wedi tyfu i fyny ac erbyn hyn mae'n ddyn aeddfed, meddylgar a hael. Yn ddiweddar, ers symud i'r Eidal, mae Aaron wedi darganfod hyder newydd ac wedi gwneud sawl cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Tybed a oes yna ddyfodol i Ramsay fel gwleidydd? Mae yna sawl chwaraewr wedi dewis y trywydd hwnnw ers ymddeol, gyda gwahanol raddau o lwyddiant – George Weah, Andriy Schevchenko a Sol Campbell, er engraifft.**

**Mae'n bosib, ond dw i'n rhagweld Aaron Ramsay yn dilyn esiampl un o'r chwaraewyr gorau erioed, sef Billy Meredith. Roedd Meredith yn wleidyddol heb fod yn wleidydd. Ffurfiodd y dyn o'r Waun Undeb y Chwaraewyr Proffesiynol i amddiffyn hawliau ei gyd-chwaraewyr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ac mae Ramsay yn amlwg yn Gymro arall sydd yn barod i gwffio dros achosion sydd yn agos i'w galon.**

*Ymddangosodd y golofn hon gyntaf yng nghylchgrawn Golwg sydd wedi rhoi caniatad i ni ei gyhoeddi*

# Y Cyfrifiadur Cymraeg

## gan y Bysellwr Blin

Jest rhag ofn eich bod chi'n meddwl am ysgrifennu/deipio rhywbeth yn nyddiau eich neilltuo,- rhywbeth i feddwl amdano wrth wneud.



Gymaint o weithiau fydda i'n darllen 'I' pan ddylai fod yn 'i' a 'ty' heb ^ Mae'n fy gwneud i'n hollol

Os ydych chi'n un o'r bobol sy'n ymwybodol o'r ffaeleddau hyn ac yn dallt y dalltins yn iawn, darllenwch rywbeth arall yn y papur. Os nad ydych chi, darllenwch ymlaen.

Mae'n debyg mai Microsoft Word fyddwch chi'n ei ddefnyddio wrth deipio, ac mae'r cyfrifiadur yn deall Cymraeg os ydych chi'n dweud wrtho fo, reit!

Pan fyddwch chi'n agor ffeil newydd, ar waelod y dudalen fe welwch chi'r gair English (United Kingdom). Cliciwch arno fo(ddwywaith) ac fe fydd bocs arall yn agor, a rhywle i lawr yn y gwaelod drws nesa i Vietnamese mae **Welsh**. Cliciwch arno fo ac wele, fydd y cyfrifiadur yn sydyn ddim yn tanlinellu pob gair Cymraeg gyda llinell goch igam-ogam wedyn a fydd o ddim yn cywiro 'i' yn 'I' chwaith. Deall!

Reit, **y cam nesa.** Pan oeddech chi yn y bocs yn dewis eich iaith, oedd yna ✓ wrth **Welsh**? Os nad oedd, fydd o ddim yn gwirio sillafu i chi. Ond mae o'n gallu gwneud hynny, os ewch chi i nol y blymin rhaglen. Mae hi am ddim. Mae Prifysgol Bangor wedi gwneud un a'i rhoi hi i Microsoft.

Nesaf, ewch ar y we ac i wefan Microsoft. Yn y blwch 'search' teipiwch '**Welsh proofing tools'** ac 'enter', dewis y fersiwn iawn i'ch cyfrifiadur chi a dilyn y cyfarwyddyd, a

bingo, bydd ✓ wrth ochr y gair Welsh yn sydyn ac fe fydd y gwiriwr sillafu yn gweithio, isi pisi.



**Nesa, teipio â ê î ô ŵ ŷ – isi psi eto.**

Ewch i 'insert' ar y top ac fe welwch chi 'symbol' ar y dde. Cliciwch arno fo ac fe fydd rhesi o symbolau gwahanol yn dangos.

Dewiswch eich llythyren. Mae 'ŵ' ac 'ŷ' yno. Wedyn 'insert'.

Ond mae hyn braidd yn llafurus i'w wneud bob tro, felly, fe welwch chi fotwm **'short cut key'**. Cliciwch arno fo wedi dewis eich llythyren a gwasgu'r un ar gyfer 'â' e.e.

Dilëwch unrhyw beth mae Microsoft wedi ei gynnig yn y bocs gyferbyn. Bob tro byddwch chi'n teipio 'ctrl' ar y bysellfwrdd ac 'a' fe gewch chi 'â'. Dim problem.

Felly ewch ati i ysgrifennu yn ffri. Mae digon o amser ganddoch chi! Gall eich cynnyrch weld golau dydd yn *CwmNi* wedyn.

Mae rhyngwyneb Cymraeg i'w gael hefyd, ond stori arall ydy honno. Digon am y tro.

G.W.W.



# Colofn Dafydd Islwyn

Englynion yn llifo i'r co' wrth deithio heibio i Ysgol Gymraeg Trelyn. Testun englyn y dydd, dydd Gwener y 5ed o Awst 2016 yn Y Fenni oedd, "Dymuniad". Yr enillydd oedd Meirion Jones, ardal Llandysul. Ei ddymuniad oedd gweld y Gymraeg yn famiaith Gwent:

Er darfod ei thafodiaith, - ei hyder
Ail-godwyd, a'n gobaith
Wedi'r haf yw y daw'r iaith
Fu yma eto'n famiaith.

Cofiais englyn "Yr Ysgol Gymraeg" o Sir Benfro:


Cymru a wybu obaith – o'i hagor
Mewn Seisnigaidd dalaith;
Daw i fri drwy adfer iaith
A gweini uwch gwae heniaith.

Cyhoeddwyd yr englyn yn hunangofiant, "Fi yw hwn", W. R. Evans, Y Barri a Mynachlog Ddu yn 1980. Ymhen tair blynedd darllenais yr englyn yn y "Twrch Trwyth a Cherddi Eraill!". Casgliad o gerddi'r Prifardd Tomi Evans (1905-1982), Tegryn, Sir Benfro. Tybed ai cywaith oedd yr englyn ar gyfer Ymryson y Beirdd, cyfnod Sam Jones ar y radio o 1949 tan 1963? A'r ddau fardd yn cynrychioli Sir Benfro.

Yn 1980 cyhoeddwyd y llyfryn, "Pengam Board School", ac ynddo ceir detholiad o lyfrau log yr ysgol, Ysgol Trelyn heddiw, o 24ain o Fai 1875 hyd 1979. Y detholwr oedd G. H. Hardwick, y prifathro ar y pryd. Dewisais 2ail o Ebrill 1976 – "The Old Buildings Vacated".

18fed o Ebrill 1977 – "Welsh Unit transferred from Risca Town School to the old school."

Hydref 1979. "It has been decided that 1980 will be celebrated as a belated centenary. It has been suggested that a book should be written, "The Story of Pengam Primary School".... y rheswm pam na ddathlwyd canrif o addysg



gynradd yn y pentref yn 1975 oedd y ffaith bod y disgyblion yn disgwyl cael mwynhau'r ysgol newydd ar draws y ffordd. Nodais ar dudalen olaf y llyfryn: "20fed o Fedi 1977 - ymwelodd T. Llew Jones, yr awdur toreithiog, â'r Uned". Un o ofnau mawr T. Llew Jones, ar hyd ei oes, oedd beth fyddai dyfodol Cymru a'r Gymraeg a'r gymdeithas Gymraeg. Oni ddywedodd wrthyf yn aml: " ..... mae'r Gymraeg yn dod mewn drwy'r drws cefn gyda chi yng Nghwm Rhymni, ond wy'n ofni ei bod hi'n mynd mas drwy ddrws y ffrynt gyda ni."

Yn 2008 cyhoeddwyd y llyfr, "Pengam and Fleur de Lis schools celebrate over 130 years of serving the community!" Paragraff a gododd y galon oedd: "Sefydlwyd Ysgol Gymraeg Trelyn ym Mhengam yn 1991, ac ers hynny mae addysg Gymraeg yn mynd o nerth i nerth yn yr ardal." Y disgwyl oedd yn 1991 y byddai uchafswm o 150 o blant yn mynychu'r ysgol o ddalgylch y Coed Duon, a'r ardal gyfagos. Bellach, mae 220 o ddisgyblion yn yr ysgol, a dwy ysgol newydd wedi'u sefydlu yn yr ardal er mwyn ymateb i'r galw, Ysgol Bro Sannan i'r gogledd ac ysgol newydd Oakdale yn y dwyrain! Ydy, mae drws y cefn yn llydan agored yn Sir Caerffili.

Yn fy myw ni allaf beidio â chredu nad oes dim byd tebyg yng Nghymru benbaladr i'r maeth mae'r iaith Gymraeg yn rhoi yn eneidiau ei phlant. Mae Ysgol Trelyn yn gwneud ei rhan fel holl ysgolion Cymraeg cyngor Sir Caerffili. Diddorol oedd darllen mai tri disgybl yr ysgol, sef Shelly Turner, Hywel Davies a Geraint Criddle, flynyddoedd yn ôl enillodd y gystadleuaeth yn yr ysgol i'w henwi.

## Gwawr Goch ar y Gorwel

Unwaith eto mae Clwb Darllen Cwm*ni* wedi dewis dweud eu dweud ar y We.

I ddechrau, dysgon ni yn ystod y ddwy bennod gynta o "Gwawr Goch ar y Gorwel" bod rhaid darllen y ddau lyfr blaenorol ("Gwyn Eu Byd" a " Cyw Melyn y Fall") er mwyn deall beth affliw sy'n digwydd. Heb esboniad o'r sefyllfa na'r cymeriadau, mae'r darllenwr wedi drysu'n llwyr. Roedd un aelod o'r grŵp wedi rhoi lan ar ôl hanner can tudalen.

Stori am Dela Arthur yw hon. Mae hi'n rhyw fath o *sleuth* yn ei hamser sbâr o fod yn athrawes mewn ysgol fach wledig yn Sir Benfro. 1947 yw'r flwyddyn. Mae'r cefndir ei hunan yn swnio'n addawol iawn. Ond siom gafodd pob un ohonom ni. Does dim teimlad o'r adeg jest wedi'r rhyfel ac mae sawl peth sydd, yn fy marn i, ddim yn gyson â'r flwyddyn.

## Gwawr Goch ar y Gorwel (parhad)

Mae Dela yn aros mewn gwesty glan y môr i chwilio i mewn i farwolaeth menyw oedrannus oedd yn perthyn i ffrind iddi. Does dim rheswm yn y byd dros feddwl ei bod wedi'i llofruddio ond mae Dela'n chwilio ym mhob twll a chornel a gweld pethau bach dibwys fel *clues* - gwan iawn. Crëir dirgelwch mas o ddim byd. Dywed un darllenwr "yn gyffredinol, mae diffyg argyhoeddiad yn y nofel a hynny yn deillio o ddiffyg esboniad clir o ddigwyddiadau ac, yn fwy na dim, diffyg cymeriadu effeithiol...... mae'r cymeriadau yn y gwesty yn fflat a heb unrhyw apêl, a dweud y gwir, does dim cymeriad yn y nofel sy'n ennyn llawer o gydymdeimlad."

Mae darllenwr arall yn crisiali barn pawb trwy ddweud, "aeth y cyfan yn ddiflas yn ystod yr hanner cyntaf ac roedd y diwedd yn siomedig iawn. Doedd o ddim yn gweithio."

Fel arfer, mae llyfrgell Caerffili yn casglu llyfrau o bob cwr o'r sir i ni gael copi'r un o lyfr y mis. Gwych. Dydy hyn ddim yn digwydd nawr, felly rydym wedi penderfynu ymaddasu ac ysgrifennu paragraff yr un.

Rwy'n siŵr bod pawb wedi bod yn darllen mwy na'r arfer, dyma'ch cyfle chi i gyfrannu - ond rhyw ddwy neu dair brawddeg hyd yn oed. Mae croeso i blant hefyd, wrth gwrs. Os teimlwch ddiffyg hyder i ysgrifennu yn y Gymraeg, peidiwch becso. Mae panel o brawf-ddarllenwyr gennym a llygaid fel barcud sy'n cywiro unrhyw wall sy'n digwydd codi. Rhowch gynnig - byddai'n bleser clywed gennych.

*Mary Jones ar ran y Cylch*

# Beth fyddech chi'n ei ddweud?

**gan Ann Lewis**

Ces i syniad am nodwedd newydd i'r papur bro rywle ynghanol y drafodaeth fawr am osod Cwm*ni* ar y we dros gyfnod y firws.

Mae'n siwr i'r rhan fwyaf ohonom fod mewn cynhadledd neu ar gwrs lle dechreuwyd gyda sesiwn 'torri'r iâ', hynny yw cyfle i bobl ddod i adnabod ei gilydd yn well. Yn fy mhrofiad i, tipyn o embaras i'r mwyafrif yw'r sesiynnau yma, p'un a fydd gofyn eich cyflwyno eich hun mewn rhyw ffordd neu weithiau chwarae rhyw gêm wirion a phawb yn dyheu am gael symud ymlaen at bwrpas y cyfarfod.

Un o'r dulliau poblogaidd o dorri'r iâ yw gofyn i bawb ddweud rhywbeth diddorol amdanynt eu hun. O diar, dyna beth yw stres! Mae wyneb pawb, heblaw ambell gymeriad hynod hunan-hyderus, yn dangos gofid na allan nhw feddwl am DDIM BYD diddorol ac y bydd pawb yn tosturio wrthyn nhw weddill y dydd. Roeddwn i'n arfer disgyn yn dwt i'r categori yma ond rai blynyddoedd yn ôl fe ges i syniad. Wedi hynny, os gofynnid i mi am ffaith ddiddorol, byddwn innau'n ymateb trwy ddweud:

' Wel un bore Nadolig, bues i ar *pub-crawl* gydag offeiriad Jesuit.'
Dyw'r gosodiad ddim yn arfer cael derbyniad ffafriol – y mwyafrif mae'n siwr yn meddwl mod i'n rhaffu celwyddau - a dyw e ddim yn arwain at ragor o gwestiynau chwaith. Hwre – nawr allwn ni ddechrau'r cyfarfod, os gwelwch yn dda?

Ond fel mae'n digwydd, mae'r gosodiad yn wir. Am ryw bum mlynedd yn ystod y chwedegau bu ewythr a modryb i mi yn byw yn India, yntau yn beiri-annydd sifil yn gweithio i'r llywodraeth. Tra roed-den nhw yno, daethant i gysylltiad â nifer o Brydeinwyr eraill, rhai ohonynt yn genhadon Catholig yn gweithio gyda'r tlotaf a'r mwyaf difreintiedig o drigolion y wlad, yn darparu ysgolion ac ysbytai gan amlaf. (Doedd dim Methodistiaid Calfinaidd yn yr ardal!)

Wedi dychwelyd i fyw i'r wlad hon, byddai fy mo-dryb yn mwynhau cynnig llety a chroeso i'r cenha-don yma pan fyddent yn cael cyfnod o orffwys ym Mhrydain. Fe wnes i gyfarfod â sawl un ohonynt, yn gyffredinol yn ddynion arbennig iawn. Un Nadolig, rywdro ddechrau'r saithdegau a Mam a minnau yn treulio'r gwyliau gyda'r teulu, daeth y Tad Vic Rosner atom. Fe oedd y Jesuit, gŵr tal dysgedig, yn byrlymu o frwdfrydedd tuag at bob math o bethau. Tra roedd Mam a'i chwaer yn paratoi cinio, danfonwyd fy ewythr, fy nghefnder, fi a'r offeiriad allan am dro – ac rwy'n meddwl mai syniad y Tad Rosner oedd mynd ar drywydd diod! A dyna ni – mae fy natganiad 'diddorol' yn wir.

Rhowch wybod beth fyddech chi'n ei ddweud! dan yr un amgylchiadau?

**Atebion i gwestiynau "Colofn y Dysgwyr" ar dudalen 11** 1. Pe 2. Os 3. a 4. Os 5. Pe

# Gwyddbwyll

Cynhaliwyd cystadleuaeth wyddbwyll i fechgyn a merched yn Ysgol Gymraeg Caerffili ar ddiwedd mis Ionawr (Welsh Chess Union).



Chwaraewyr gwyddbwyll o
Ysgol Gymraeg Caerffili a Chwm Rhymni

Pleser o'r mwyaf oedd clywed nifer fawr o'r gemau yn cymryd rhan yn y Gymraeg wrth I ddisgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili, Cwm Rhymni a Melin Gruffydd fwynhau'r gystadleuaeth. Roedd hyd yn oed un o'r dyfarnwyr gwirfoddol, Richard, yn siarad Cymraeg hefyd.





Gwennan Evans yn ennill y drydedd wobr ym mhencampwriaeth Merched Cymru dan 10 oed.



Alice Todd a Kirby Paul a ddaeth yn gydradd gyntaf ym mhencampwriaeth Merched Cymru Dan 14 oed
(Welsh girls under 14s joint champions).


## PWYLLGOR A SWYDDOGION

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Dosbarthu a Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W.Williams, Dilys Williams,

**Ieuenctid:** Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, **Hysbysebu:** Bethan Jones, Menter Iaith

**Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** Meter Iaith Sir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamary2000@yahoo.co.uk

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**

**Argraffu Tower Print, Uned 12a,Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas ,Caerffili, CF83 8DW**